**Y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ARD 01-03(p3)**

**Adroddiad Sector Llaeth**

1. **Dadansoddiad Marchnad**
2. **Cyflawniad Bwyd-Amaeth hyd yma**
3. **Cyflawniad Gweithredoedd Bwyd-Amaeth newydd**

## 1. DADANSODDIAD MARCHNAD

Prisiau'n cael eu dylanwadu gan gyflenwad a galw a chyfraddau cyfnewid arian.

### 1.1 Marchnadoedd Byd-Eang

- Gormod o gyflenwad llaeth relative ar gael ar lefel fferm byd-eang o'i gymharu â'r galw.
- Gwerth LlPS, Menyn a Chaws Cheddar wedi bod yn syrthio ers Awst 2001
- Y dirywiad ym mhrisiau byd-eang cheddar sy'n effeithio Cymru fwyaf.
- Marchnadoedd byd-eang y dyfodol yn symud ar i fyny'n araf yn sgil rhagolygon cynnyrch llaeth salach o'r rhanbarthau Awstralasia. Codiadau pris nwydd fodd bynnag yn debyg o fod yn araf yn dod i'r amlwg oherwydd

- Stoc ymyrrol UE/UDA o LlPS (600,000+ tunnell fetrig) fydd angen rhyddhau i'r farchnad a
- Stoc brosesu uchel o gaws cheddar yn aeddfedu mewn storfa ar hyn o bryd.

### 1.2 Marchnadoedd DG

Marchnadoedd cynwyddau'r DG yn cael eu dylanwadu'n drwm gan farchnadoedd byd-eang

- Cyfraddau cyfnewid arian – cryfder cymharol y bunt.
- Marchnad laeth y DG – deniadol i broseswyr Iwerddon ac Awstralasia ar gyfer cheddar
- Prisiau LlPS y DG wedi dilyn y dirywiad byd-eang a syrthiodd prisiau yn Awst 2001.
- Prisiau cheddar y DG wedi syrthio'n ddilyffethair, dengys ffigyrau blwyddyn ar ôl blwyddyn Tachwedd gwymp o £400/tunnell fetrig; pris fferm sy'n gyfartal â minws 4cyl

- Cynnyrch llaeth uwch na chyfartaledd DG yn ystod gaeaf 01/02 a gwanwyn 02.

### 1.3 Cyflenwad a phrisiau llidiart fferm y DG

Gostyngiad 25 y cant ym mhris llaeth y DG eleni – oherwydd cyflenwad cymharol uchel i'w gymharu â'r galw.

- Yn sgil clwy'r Traed a'r Genau, rhagwelwyd gostyngiad yn y cynnyrch llaeth yn ystod gaeaf

2001/02 a gwanwyn 2003.

- Proseswyr a phrynwyr llaeth yn disgwyl gostyngiad yng nghyfeintiau llaeth a chynnydd posib ym mhris llaeth heb ei drin, a thrwy hynny'n cynyddu eu stoc o gynhyrchion llaeth.

- Ffermwyr godro'r DG yn cynyddu'n ddramatig gynnyrch llaeth gaeaf wrth ddisgwyl prisiau uwch – o ganlyniad mae gorgyflenwad llaeth heb ei drin.

Pris llaeth heb ei drin y DG heb ddod ato'i hun eto a gwnaiff hyn gymryd peth amser eto. Gweithredu cadarnhaol yn y farchnad gan

- Archfarchnadoedd yn cynyddu prisiau cynhyrchion llaeth DG (llaeth hylifol a chaws)
- Maint cynnyrch llaeth hydref yma y DG yn is na'r blynyddoedd blaenorol.

**1.4 Prisiau Adwerthu'r DG**

Ymddengys i'r marchnadoedd llaeth gwan fod yn broffidiol i brynwyr y DG oherwydd

- Prisiau cynwyddau isel am gaws a menyn oherwydd cryfder cymharol y bunt.
- Anghydbwysedd yn y DG rhwng cyflenwad llaeth heb ei drin a gofynion prosesu
- Prisiau caws cheddar mwyn di-frand y DG (gyflenwyd o'r farchnad cynwyddau) yn dangos gostyngiad prif adwerthu blwyddyn ar ôl blwyddyn o £270 y dunnell fetrig.
- Prisiau menyn di-frand wedi dangos gostyngiad bychan ond bellach wedi eu hadfer.
- Marchnad laeth hylifol y DG am laeth sgim, hanner sgim a chyflawn wedi bod yn sefydlog;

1. **CYFLAWNIAD BWYD-AMAETH HYD YMA**

Y strategaeth yn dechrau talu ar ei ganfed i nifer o'r wyth prif weithredydd sy'n prosesu 85% o'r holl laeth brosesir yng Nghymru.

- Cynlluniau ehangu yn eu lle, archebion allforio'n cael eu hennill, brandiau a chynhyrchion newydd yn cael eu lansio a'u hyrwyddo yn y DG, UE a ledled y byd.

- Gweithredwyr llai hefyd yn manteisio ar nifer o'r mentrau newydd.

- Dros y tair blynedd diwethaf, bron i £9.2miliwn o gymorth grant wedi ei chwistrellu i brosiectau werth dros £31.7 miliwn i ychwanegu gwerth at laeth gynhyrchir yng Nghymru.

- Ymgyrch generig Llaeth Y Ddiod Gadarn, sef y fersiwn dwyieithog o The White Stuff yn dechrau dangos canlyniadau ond wedi dirwyn i ben yn 2002 pan ataliwyd ymgyrch "The White Stuff" y DG

- Prosiect Ymchwil Llaeth Ysgol yn hyrwyddo llaeth ysgol am ddim dan nawdd Llywodraeth Cynulliad Cymru a llaeth ysgol sy'n cael ei sybsideiddio gan yr UE yn y sector addysg (83,311

disgybl newydd bellach yn cael llaeth ers dechrau’r prosiect)

- Cyngor Datblygu Llaeth (CDLl)a chwmnïau sector preifat megis First Milk SCC, ACC yn buddsoddi mewn tafarndai llaeth mewn ysgolion uwchradd.

- Caws – Cymdeithas Gaws Cymru – wedi helpu cynhyrchwyr caws Cymru i gydweithio i rannu costau marchnata a chyrchu marchnadoedd newydd.

- Rhaglenni sector cyhoeddus, megis Rhaglenni Datblygu Masnach WDA, yn cynorthwyo llaethdai Cymreig i gyrchu llwybrau a marchnadoedd Adwerthu a Chyfanwerthu newydd yn y DG a thramor trwy ei raglen Digwyddiadau ac arddangosfeydd.

- Cyswllt Ffermio wedi ei greu i ddatblygu ‘siop un alwad’ i deuluoedd amaeth am gyngor a gwasanaethau.

- Mae’r Ganolfan Datblygu Cynnyrch Llaeth (CDCLl), fel rhan o Cyswllt Ffermio, yn gweithio i helpu ffermwyr godro trwy gyfres o ffermydd datblygu ac arddangos, grwpiau trafod, dadansoddiad meincnodi, YaD a hyfforddiant. Ar ddiwedd Hydref 2002, dros 1300 ffermwr godro wedi defnyddio gwasanaethau’r Ganolfan.

1. **CYFLAWNIAD GWEITHREDOEDD BWYD-AMAETH NEWYDD**

Dylai’r ddogfen fod yn barod ar gyfer gweithgareddau rhyddhau gynlluniwyd ar gyfer Ionawr. Gweithgareddau eisoes ar y gweill i wireddu gweithrediadau strategaeth llaeth AFP yw

**Cyrchnod 1 Marchnata**

- Gr•p Gorchwyl a Gorffen yn cael ei ddatblygu (is gr•p DSG). Y gorchwyl fydd adolygu gweithgareddau Cymreig/DG ar Hybu Llaeth Generig yng Nghymru a dynodi meysydd gweithgaredd/synergedd newydd ayb er ystyriaeth y diwydiant.

- Gweithgareddau hyrwyddo llaeth a chynhyrchion llaeth – prif feysydd;

- Cefnogaeth Llaeth Y Ddiod Gadarn ddwyieithog i’r White Stuff yng Nghymru, Tafarndai Llaeth Ysgolion Uwchradd, hwyluswyr llaeth ysgol.
- Sioeau teithiol llaeth / caws o amgylch archfarchnadoedd ayb Cymru, y Gororau a De Ddwyrain Lloegr yn cael eu datblygu ar gyfer blwyddyn 2003

- Cawsiau o Gymru cyf. Corff gwerthiant a marchnata cydweithredol i gynhyrchwyr caws yng Nghymru. Lansio Mawrth 2003 – pan fydd y cynllun busnes wedi ei gwblhau – byddant yn gwahodd cynhyrchwyr caws eraill yng Nghymru i ymuno a buddsoddi yn y corff newydd.
- Rhaglen Digwyddiadau ac Arddangosfeydd 2003 wrthi’n cael ei datblygu. Prif ddigwyddiadau yw IFE Llundain Mawrth 2003 ac ANUGA yn yr Almaen Hydref 2003

**Cyrchnod 2 Prosesu**

Gwasanaeth Arloesedd Llaeth – Tendr wedi ei ryddhau yn Ionawr 2003 ar gyfer "Cynigion i ddatblygu a gweithredu gwasanaeth Arloesedd Llaeth i Gymru". Prif elfennau'r Gwasanaeth Arloesedd Llaeth fydd:

- Sefydlu adnodd personél rhwydwaith-seiliedig gyda phrofiad arloesedd llaeth, marchnata, trosglwyddo technoleg, trwyddedu a phrosesu helaeth.

- Mynediad at wybodaeth am ddatblygiadau byd-eang yn y diwydiant.

- Cyfleusterau ac isadeiledd i weithredu mentrau llaeth newydd arloesol.

**Cyrchnod 3 Cynhyrchu**

- Swyddog rhanbarthol CDLl newydd – yn cydweithio â CDCLl i ddenu cymaint â phosib o drosglwyddiad technoleg CDLl ayb i Gymru.
- Y Ganolfan yn gweithio'n agos efo CDLl ar system Meincnodi Llaeth DG newydd i ffermwyr godro